VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

**ynghylch y cynnig i adlunio darpariaeth gynradd yng ngorllewin y Fro trwy:**

**1. Greu adeilad ysgol gynradd newydd â 210 lle ac ystafell ddosbarth i 48 lle meithrin rhan amser ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan yn y Rhws.**

**2. Symud staff a disgyblion o adeilad cyfredol Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad ysgol newydd.**

**3. Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Llancarfan o 4-11 oed i 3-11 oed.**



Gellir sicrhau bod y ddogfen hon ar gael yn Braille.

Hefyd, gellir sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01446 709727 er mwyn trefnu hyn.

## Cynnwys


| Cynnwys | Tudalennau |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 3 |
| **Cyd-destun Cenedlaethol** | 3 - 4 |
| **Cyd-destun Polisi Lleol** | 4 |
| **Heriau Cyfredol** | 4 |
| **Proffil Cymunedol** | 5 - 7 |
| **Asesiad o'r Effaith** | 7 - 25 |
| **Effeithiau ar y Gymuned Leol** | 9 - 22 |
| **Effeithiau ar y Gymuned Ehangach** | 23 - 28 |
| **Crynodeb Sgorio** | 29 |
| **Camau Lliniarol** | 29 - 30 |
| **Casgliad** | 30 - 31 |

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro yn cael pob cyfle i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae'n hanfodol ein bod ni'n sicrhau bod ysgolion yn parhau'n gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion y gymuned leol a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor yn cynnig adeiladu ysgol newydd â 210 lle ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan, ynghyd â 48 lle meithrin rhan amser yn y Rhws. Cynigir y bydd yr holl ddisgyblion, staff a llywodraethwyr o Ysgol Gynradd Llancarfan yn symud i'r adeilad ysgol newydd.

Byddai'r Cyngor yn hwyluso symud Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad ysgol newydd trwy Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Byddai hyn yn newid ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 oed.

Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ysgolion yn gwasanaethu eu cymunedau lleol ac yn ymateb i'r galw. Mae angen i ateb y galw yn y dyfodol o'r datblygiadau tai newydd yn y Rhws a sicrhau bod y ddwy ysgol yn gwasanaethu eu cymunedau. Byddai ysgol â 210 lle, sef y maint lleiaf o ran sicrhau ysgol effeithlon a hefyd yr ysgol leiaf y byddai'r Cyngor yn ei hadeiladu o bersbectif cynaliadwyedd, yn cynnig lle i'r cynnydd a ragamcenir yn nifer y disgyblion o'r ddau ddatblygiad newydd yn y Rhws, yn ychwanegol i nifer ragamcanedig y disgyblion a fyddai'n symud o safle cyfredol Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae adolygu anghenion ehangach Gorllewin y Fro yn cynnig cyfle i sefydlu adeilad ysgol y 21ain Ganrif wrth fynd i'r afael ag anghenion y gymuned a nifer y lleoedd gwag.

Byddai'r cynnig yn creu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid ac yn herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial. Byddai'r cynnig yn galluogi'r gymuned i barhau i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol ac i wneud hynny fwyfwy, drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Mae'r Cyngor yn cynnig y byddai'r adeilad ysgol newydd yn gweithredu o fis Medi 2021 ymlaen, gyda disgyblion a staff yn cael eu symud o'r dyddiad hwnnw hefyd. Mae'r ddogfen hon yn asesu'r effeithiau y gallai'r cynnig hwn eu cael ar y gymuned leol a'r gymuned ehangach. Mae adborth o'r ymgynghoriad cychwynnol a'r ail ymgynghoriad a gynhaliwyd wedi'i ddefnyddio i lywio a diweddaru'r asesiad o'r effaith ar y gymuned.

## 2. Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r canllaw statudol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol ar ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i threfniadaeth ysgol yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Thrafnidiaeth Ysgolion (2013) a Chod Trafnidiaeth Ysgolion (2013). Mae Cod Trafnidiaeth Ysgolion (2013) yn argymell y dylid

cynnwys yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned yn rhan o ymgynghoriadau trefniadaeth ysgolion, ond, nid gofyniad yw hyn. Er hynny, credodd y Cyngor y byddai’n gall creu asesiad trylwyr o’r Effaith ar y Gymuned o ystyried, dan y cynnig, fel addasiad a reoleiddir, na fyddai gormod o gapasiti yn y safle cyfredol yn Llancarfan ac y byddai'r ysgol yn symud i safle newydd yn y Rhws.

## 3. Cyd-destun Polisi Lleol.

Gan adleisio polisi cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, mae’r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o’r Cynllun Corfforaethol 2016-20 i gyflawni gweledigaeth o – **‘Cymunedau Cryf gyda dyfodol disglair’.**

Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gyflawni'r amcan 'Bro Uchelgeisiol’ gan godi safonau cyflawniad cyffredinol trwy foderneiddio addysg yn y Fro er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg o’r radd flaenaf.

Rydym yn credu, er mwyn cyflawni hyn, ei fod yn bwysig i ni gefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas at y diben sy’n bodloni anghenion addysg fodern. Mae angen i ysgolion fod yn gallu darparu'r profiad dysgu gorau posibl er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau sydd ar gael iddynt a’ u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

## 4. Heriau Cyfredol

Byddai’r cynnig i symud Ysgol Gynradd Llancarfan yn mynd i’r afael â nifer o heriau.

- Byddai’r staff a’r disgyblion yn safle presennol Ysgol Gynradd Llancarfan yn manteisio ar adeilad ysgol newydd sy’n bodloni safonau ysgol yr 21ain ganrif.
- Eid i’r afael â chapasiti dros ben ychwanegol yn Ysgol Gynradd Llancarfan.
- Atebid galw sy’n cynyddu am leoedd i ddisgyblion yn y Rhws.
- Disgwylir i’r diwygiadau arfaethedig i ddalgylchoedd yng Ngorllewin y Fro gynyddu niferoedd disgyblion mewn ysgolion eraill, gan wella cynaliadwyedd yn y dyfodol a chyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i leihau gormod o gapasiti yn ei ysgolion.
- Eid i’r afael â materion safle bach sy’n gysylltiedig ag ysgol ar safle cyfyngedig megis diffyg cyfleusterau chwaraeon awyr agored.
- Eid i’r afael â mynediad gwael i’r ysgol trwy’r pentref a’r lonydd.
- Byddai meithrinfa'n cael ei sefydlu i sicrhau bod dysgu plant o 3 oed yn parhau ac yn datblygu. Byddai hyn yn cefnogi sefydlogrwydd niferoedd yn yr ysgol.

## 5. Proffil Cymunedol

Mae Gorllewin y Fro yn cynnwys 8 ward, Saint-y-brid, Llandŵ/Ewenni, Llanilltud Fawr, y Bont-faen, Llanbedr y Fro, Sain Tathan, y Rhws a Gwenfô. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned hwn yn asesu'r effeithiau y gallai'r cynnig hwn eu cael ar y gymuned leol a'r gymuned ehangach.

Mae Llancarfan tua 6 milltir i'r gorllewin o'r Barri, 5 milltir i'r gogledd o'r Rhws a 8.5 milltir i'r de-ddwyrain o'r Bont-faen.

Proffil Poblogaeth

Mae Ysgol Gynradd Llancarfan ym mhentref Llancarfan, yn ward y Rhws yn etholaeth Cyngor Bro Morgannwg. Yn ôl amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (SYC) o'r boblogaeth yng nghanol 2016, mae 7,069 o bobl yn byw yn ward y Rhws. Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 747 o bobl yn byw ym Mhlwyf Llancarfan. Dyma broffil y trigolion:

| Ystod Oedran | Trigolion | Canran (%) |
|---|---|---|
| 0 i 4 oed | 34 | 4.6 |
| 5 i 7 oed | 24 | 3.2 |
| 8 i 9 oed | 24 | 3.2 |
| 10 i 14 oed | 58 | 7.8 |
| 15 oed | 14 | 1.9 |
| 16 i 17 oed | 29 | 3.9 |
| 18 i 19 oed | 16 | 2.1 |
| 20 i 24 oed | 27 | 3.6 |
| 25 i 29 oed | 20 | 2.7 |
| 30 i 44 oed | 123 | 16.5 |
| 45 i 59 oed | 202 | 27.0 |
| 60 i 64 oed | 43 | 5.8 |
| 65 i 74 oed | 83 | 11.1 |
| 75 i 84 oed | 36 | 4.8 |
| 85 i 89 oed | 11 | 1.5 |
| 90+ oed | 3 | 0.4 |

Oedran cymedrig trigolion yw 41.2 a'r oedran canolrifol yw 45.

Proffil Economaidd

Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae wedi'i greu i nodi'r ardaloedd bach hynny lle mae'r crynhoad uchaf o amryw wahanol fathau o amddifadedd. Mae'n ystadegyn cenedlaethol ac wedi'i greu gan ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru.

Mesur o amddifadedd lluosol sy'n fesur ar sail ardal a mesur o amddifadedd cymharol yw MALIC. Ar hyn o bryd, wyth parth ar wahân (neu fathau o

amddifadedd) sydd gan MALIC. Mae pob parth wedi'i greu o ystod o ddangosyddion gwahanol:

- Incwm
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad at Wasanaethau
- Diogelwch Cymunedol
- Amgylchedd Corfforol
- Tai

Crëir y fynegai ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI). Mae Llancarfan yn rhan o ADEHI y Rhws 3 (W01001119). Yn gyffredinol, mae'r Rhws 3 wedi'i sgorio'n 1650 o'r 1909 o AGEHIau yng Nghymru, sy'n ei roi ymhlith y 50% mwyaf amddifad. Dosberthir 7 o'r 8 mesur fel rhai sydd ymhlith y 50% mwyaf amddifad. Mae Mynediad at Wasanaethau ymhlith y 10-20% mwyaf amddifad yng Nghymru.

Mae nifer o fusnesau a chyfleusterau cymunedol yn Llancarfan gan gynnwys clwb tennis, tafarn, clwb sinema, canolfan gymunedol ac eglwys. Mae'r rhain i gyd yn agos at Ysgol Gynradd Llancarfan. Cynhelir nifer o ddigwyddiadau trwy'r flwyddyn sy'n cynnwys yr ysgol.

<u>Proffil Dalgylch</u>
Ym Mai 2018, roedd 101 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Llancarfan. O'r rhain, mae 29 yn byw yn nalgylch Llancarfan. Mae'r 72 o ddisgyblion sy'n weddill yn byw y tu allan i ddalgylch Ysgol Gynradd Llancarfan. Dyma'r dadansoddiad llawn:

| Ysgol | Nifer ar y Gofrestr | Dalgylch Llancarfan | Dalgylch y Rhws | Ysgolion dalgylch y Barri | Ysgolion dalgylch Llanilltud | Ysgolion dalgylch y Bont-faen | Ysgolion dalgylch Penarth/Dinas | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llancarfan | 101 | 29 | 35 | 14 | 20 | 2 | 0 | 1 |

Mae gan Ysgol Gynradd Llancarfan nifer derbyn o 18 o ddisgyblion a chapasiti o 126. Ym Mai 2018, roedd gan yr ysgol 25 (19.8%) lle yn ormodol. Mae hyn yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru o lai na chapasiti gormodol o 10%.

Mae amcanestyniadau i'r dyfodol yn dangos ei bod yn debygol y bydd y galw am leoedd yn Ysgol Gynradd Llancarfan yn lleihau dros y pum mlynedd nesaf.

| Ysgol | Capasiti Cyfredol yr Ysgol | Ionawr 2014 | Ionawr 2015 | Ionawr 2016 | Ionawr 2017 | Ionawr 2018 | Amcanestyniad ar gyfer | Amcanestyniad ar gyfer | Amcanestyniad ar gyfer | Amcanestyniad ar gyfer | Amcanestyniad ar gyfer |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Llancarfan | 126 | 116 | 115 | 104 | 104 | 106 | 91 | 90 | 85 | 80 | 83 |

Sylwer: Mae'r amcanestyniadau uchod wedi'u seilio ar y wybodaeth sydd ar gael ar yr adeg cyhoeddi a gallant newid.

## 6. Asesiad o'r Effaith

Mae'r rhan hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei gael ar gymuned Llancarfan, yn ogystal â'r gymuned ehangach y byddai'r ysgol arfaethedig yn ei gwasanaethu. Mae'r wybodaeth a ddadansoddwyd yn y broses hon yn cynrychioli cipolwg o'r sefyllfa gyfredol. Mae adborth o'r ymgynghoriad cychwynnol a'r ail ymgynghoriad a gynhaliwyd wedi'i ddefnyddio i lywio a diweddaru'r asesiad o'r effaith ar y gymuned.

Nodwyd wyth prif fesur ar sail ymatebion a gyflwynwyd yn rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol.

| **Cyf.** | **Mesur** |
|---|---|
| CI1 | Plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir a gweithgareddau a gynhelir ar safle'r ysgol |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol |
| CI8 | Trefniadau cludiant |

Aseswyd yr wyth mesur i nodi unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol a'r gymuned ehangach, a rhoddwyd sgôr sy'n amrywio o -3 i +3 ar sail y cydbwysedd o dystiolaeth oedd ar gael.

| **Sgôr** | **Asesiad** |
|---|---|
| -3 | Dirywiad mawr |
| -2 | Dirywiad cymedrol |
| -1 | Dirywiad bach |
| 0 | Dim newid yn gyffredinol |
| 1 | Gwelliant bach |
| 2 | Gwelliant cymedrol |
| 3 | Gwelliant mawr |

## 6a. Effeithiau ar y Gymuned Leol

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| CI1 | Plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol | 2 | Mae Ysgol Gynradd Llancarfan yn gwasanaethu'r ardal o'i chwmpas ac ardaloedd Llancatal, Llanbydderi a Llantrithyd.<br><br>Mae gan yr ysgol boblogaeth yn y dalgylch o 55 o blant , wedi'i gosod yn erbyn capasiti o 126 o leoedd. Dim ond 29 o'r 55 o blant oedran cynradd sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu'r ysgol. Byddai symud yr ysgol i adeilad mwy gyda dalgylch newydd gyda niferoedd cynaliadwy yn galluogi'r ysgol i barhau â'i llwyddiant wrth ddarparu ar gyfer poblogaeth ysgol fwy.<br><br>Fel rhan o'r cynnig, byddai angen ail-lunio dalgylch presennol Ysgol Gynradd Llancarfan. Byddai'r cynnig yn rhannu dalgylch presennol Ysgol Gynradd Llancarfan fydd wedi'i throsglwyddo, rhwng Ysgolion Cynradd Y Rhws, Llanfair, Sain Tathan a Sain Nicolas. Byddai hefyd angen ailbennu dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhws i ddosbarthu disgyblion yn gydradd yn Y Rhws i wasanaethu'r ddwy ysgol.<br><br>Mae hi'n ofynnol i awdurdodau lleol reoli lleoedd ysgol ac mae disgwyl iddynt gael dim mwy na 10% o leoedd yn ormodol yn gyffredinol. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi y dylai awdurdodau lleol adolygu darpariaeth a dylent wneud cynnig i ad-drefnu ysgolion lle y ceir mwy na 10% o leoedd yn ormodol. Disgwylir i'r diwygiadau i ddalgylchoedd gynyddu niferoedd disgyblion mewn ysgolion eraill, gan wella cynaliadwyedd yn y dyfodol a chyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i leihau gormod o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gapasiti yn ei ysgolion.<br><br>Bydd adolygu'r dalgylchoedd, gan newid y ffordd y darperir addysg, yn arwain at ddosbarthiad mwy cyfartal o ddisgyblion yn yr ysgolion arfaethedig. |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. | 0 | Mae Ysgol Gynradd Llancarfan yn cynnig gwasanaethau allan o'r ysgol i rieni a gofalwyr, a gaiff eu cynnal ar safle'r ysgol ar gyfer plant Llancarfan yn unig. Mae sesiynau'r clybiau fel a ganlyn;<br><br>Sesiwn y Clwb Brecwast 8.00am – 8.45am<br>Sesiwn ar ôl yr ysgol 3.30pm – 5.30pm<br><br>Mae'r sesiwn clwb brecwast yn glwb brecwast am ddim i rieni a gynhelir gan Lywodraeth Cymru ac mae ar gael o 8.00 tan 8.45am. Nid oes tâl am y gwasanaeth hwn a gall plant fynychu o unrhyw grŵp oedran ar draws yr ysgol.<br><br>Cynhelir sesiwn y clwb ar ôl yr ysgol o 3.30pm tan 5.30pm gan yr ysgol a chodir tâl o £6.50 y sesiwn ar rieni.<br><br>Bydd y sesiynau uchod yn galluogi rhieni i gael mynediad at ofal cofleidiol i'w plant mewn amgylchedd diogel ac ysgogol.<br><br>Mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau allgyrsiol a arweinir gan athrawon amser cinio ac ar ôl yr ysgol. Mae clybiau cwricwlwm ar ôl yr ysgol yn cael eu cynnal o 3.30pm tan 4.20pm.<br><br>Mae clybiau allgyrsiol yn cynnwys; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Rygbi<br>• Pêl-droed<br>• Pêl-rwyd<br>• Ffrangeg<br>• Llyfrau comics<br>• Cyfryngau<br>• Clwb Sum Dog/ Gwyddbwyll<br>• Clwb Recorders<br><br>Mae wedi'i nodi bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r gymuned. Cydnabyddir bod nifer fach o rieni ac aelodau lleol o'r gymuned yn gwirfoddoli ar hyn o bryd i gefnogi sesiynau darllen unigol a chyfoedion yn yr ysgol, a hefyd yn gwirfoddoli i roi gwersi cerddoriaeth. Nid oedd fodd bynnag dystiolaeth o gysylltiadau cymunedol cryf gyda'r ysgol o ran ymgysylltu cymunedol a defnydd o gyfleusterau'r ysgol.<br><br>Y bwriad yw y bydd yr holl gyfleusterau presennol i blant, rhieni a'r gymuned yn parhau pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Byddai'r cynnig yn golygu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n debygol o arwain at fwy o alw am wasanaethau ysgol, yn ogystal â rhoi'r cyfle i ehangu nifer y gwasanaethau.<br><br>Mae'r cynnig yn ffurfio rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys creu cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf sy'n addas at yr 21ain ganrif. Elfen allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw darparu cyfleusterau cymunedol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Byddai aelodau'r gymuned leol yn cymryd rhan drwy gydol datblygiad y cynlluniau ar gyfer adeilad newydd yr ysgol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni anghenion y gymuned ac yn gwella'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd. Awgrymodd adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad na fyddai rhai aelodau o'r gymuned yn gallu cyrchu'r gwasanaethau hyn oherwydd pellter teithio. Felly, ar ôl pwyso a mesur, adolygwyd y sgôr i 0 gan fod effeithiau cadarnhaol a negyddol. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | -1 | Fel yr amlinellir uchod, mae nifer o fusnesau a chyfleusterau cymunedol yn ardal yr ysgol bresennol. Mae adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol yn nodi bod nifer o'r cyfleusterau hyn yn cael eu defnyddio gan yr ysgol, yn benodol y cyfleusterau chwaraeon yn y clwb tenis cyfagos. Byddai symud yr ysgol yn debygol o gael effaith ar ddefnydd y cyfleusterau oherwydd y cynigir y caiff yr ysgol newydd ei lleoli y tu allan i Lancarfan.<br><br>Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn talu £330 y flwyddyn i ddefnyddio'r cyfleusterau yn y clwb tenis. Dyma'r unig gyfleuster cymunedol y mae'r ysgol yn talu amdano. Nod allweddol rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw sicrhau bod gan ysgolion y cyfleusterau i wireddu cwricwlwm wedi'i wella er mwyn lleihau dibyniaeth ar gyfleusterau allanol.<br>Mae'n annhebygol felly y byddai'r trefniant hwn yn parhau ar ôl i adeilad newydd yr ysgol gael ei godi.<br>Hefyd, mae adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol yn nodi bod nifer o gyfleusterau a busnesau lleol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan rieni a disgyblion y tu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | allan i oriau agor yr ysgol, yn ogystal â mynychu digwyddiadau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys y dafarn leol, y clwb tenis a'r clwb sinema lleol. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi cynghori nad yw'n cyfeirio rhieni at y busnesau hyn nac yn eu cefnogi'n weithredol. Trafodir yr effaith ar y busnesau hyn ymhellach yn CI5 a CI6.<br><br>Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol wedi trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau yn y gorffennol yn y dafarn leol a'r sinema gymunedol.<br><br>Gan fod yr ysgol wedi cadarnhau mai'r clwb tenis yw'r unig gyfleuster cymunedol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn uniongyrchol ganddynt, mae'r sgôr wedi'i adolygu i -1. Bydd cyfeiriad at yr effeithiau ar fusnesau lleol a chyflogaeth yn sgil trosglwyddo'r ysgol, yn CI5 a CI6. |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir a gweithgareddau a gynhelir ar safle'r ysgol | 0 | Mae Ysgol Gynradd Llancarfan ar gael i'w defnyddio gan y gymuned leol. Fodd bynnag, defnyddir y ganolfan gymunedol, sydd ar wahân i'r ysgol, yn bennaf gan y gymuned.<br><br>Yn ôl adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol, cafodd yr ysgol ei defnyddio yn y gorffennol, ar y cyd â Neuadd y Pentref, ar gyfer y ffair haf.<br><br>Nod allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw sicrhau y caiff cyfleusterau'r ysgol eu datblygu i fodloni anghenion y gymuned leol.<br><br>Byddai aelodau'r gymuned leol yn cymryd rhan drwy gydol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | datblygiad y cynlluniau ar gyfer adeilad newydd yr ysgol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni anghenion y gymuned ac yn gwella'r cyfleusterau sydd ar gael. |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol | -1 | Mae nifer o fusnesau a mudiadau lleol wedi'u lleoli'n agos iawn at yr ysgol, fel y clwb tenis, y sinema gymunedol, y clwb ar ôl ysgol a'r dafarn. Mae adborth gan fusnesau a mudiadau yn awgrymu bod nifer fawr o ddisgyblion a rhieni yn eu defnyddio. Yn ôl adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad, nid yw llawer o rieni a disgyblion yn byw yn Llancarfan, ac ni fyddent yn defnyddio'r busnesau pe bai'r ysgol yn cael ei throsglwyddo.<br><br>Mae Sinema Gymunedol Llancarfan yn glwb ffilm dielw sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr, i wasanaethu'r pentref a'r ardal o amgylch. Fe'i sefydlwyd ym mis Medi 2012 ac enillodd wobr glodfawr y Gymdeithas Ffilm Newydd Orau yng Ngwobrau Cymdeithas Ffilm y Flwyddyn 2013. Mae'r Sinema Gymunedol wedi elwa ar gefnogaeth gan fenter Cymunedau Gwledig Creadigol, cronfa adfywio a weinyddir gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'r arian wedi helpu i brynu taflunydd manylder uwch, llenni llwyrddüwch a seddi cyffyrddus ar gyfer neuadd y pentref. Nid yw'r Sinema Gymunedol yn defnyddio unrhyw gyfleusterau yn Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae'r grŵp gwirfoddol wedi tyfu ers 2012; mae deg o'r gwirfoddolwyr yn cynnal y dangosiadau ffilm bob mis, ac o'r rhain mae gan bump naill ai blant yn yr ysgol, neu roedd ganddynt tan yn ddiweddar iawn, ac mae tri yn gyn-ddisgyblion o'r ysgol. Y dangosiadau mwyaf poblogaidd (yn denu cynulleidfaoedd o 70+, o'i gymharu â chyfartaledd o 40 i bob ffilm) yw'r rhai i deuluoedd sy'n cael eu hysbysebu fel digwyddiadau i godi arian i'r Gymdeithas |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rieni ac Athrawon. Mae’r Sinema Gymunedol yn elwa o werthiant tocynnau i rieni a phlant sy’n mynychu’r ysgol gynradd. Mae 60% o’i aelodau’n deuluoedd gyda phlant yn yr ysgol, neu oedd â phlant yn yr ysgol o fewn y pum mlynedd diwethaf. Mae’r clwb wedi’i gwneud yn wybyddus drwy gyfrwng Sefydliad Ffilm Prydain eu bod yn gwerthu tua 40 tocyn aelodaeth i deuluoedd neu unigolion, am bris o £30 a £15 yn eu tro. Fel rhan o’r cynnig, mae’r clwb sinema hefyd yn gwerthu hufen ia wedi’i wneud yn lleol, te, coffi a diodydd meddwl, ynghyd â DVDs ail-law. Yn eu tro, mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol wedi elwa o ddigwyddiadau codi arian yn y sinema. Ers 2013, cynhaliwyd pedwar digwyddiad arbennig tebyg: Mae’r sinema wedi cynnal gweithgareddau hybu ar y cyd â thafarn y Fox & Hounds, gan gynnwys pecyn pryd o fwyd cyn gwylio’r ffilm. Mae’r dafarn yn llenwi â chynulleidfaoedd ar nosweithiau dangos ffilmiau. Cynhaliodd y sinema ddigwyddiad cymdeithasol ar gyfer Clwb Tenis Llancarfan yn 2016, drwy ddangos Eddie the Eagle i helpu i ddenu aelodau i’r ddau grŵp. Mae adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn awgrymu na fyddai’r sinema’n gallu parhau ar ôl i’r ysgol drosglwyddo. Nid yw’r Cyngor yn ystyried bod digon o dystiolaeth wedi’i darparu i brofi hyn. Gallai’r ysgol sy’n trosglwyddo, y Gymdeithas Rieni ac Athrawon a’r Corff Llywodraethu barhau â pherthynas i hybu defnydd o’r sinema gymunedol. Bach iawn o bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol sydd gan Sinema Gymunedol Llancarfan, gyda phrinder gwybodaeth ddiweddar ar y wefan a’r dudalen Facebook. Gellid hybu’r sinema i gynyddu cynulleidfaoedd drwy ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol a’r wefan. Byddai mwy o ddisgyblion yn mynychu’r ysgol wedi’i throsglwyddo, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | allai arwain at fwy o fynychwyr o bosib.<br><br>Yn ychwanegol at y clwb ar ôl ysgol, mae hefyd glwb ar ôl ysgol preifat sy'n cynnig gofal ar ôl ysgol i ddisgyblion cynradd ac uwchradd am £8 y sesiwn. Mae'r clwb ar ôl ysgol ar hyn o bryd yn talu ffi flynyddol i ddefnyddio neuadd y pentref. Mae adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn awgrymu na fyddai'r clwb ar ôl ysgol yn gallu parhau ar ôl i'r ysgol drosglwyddo. Roedd wyth disgybl yn mynychu'r clwb ar ôl ysgol hyd at Orffennaf 2018. Byddai'r Cyngor yn ymchwilio i weld faint o'r disgyblion hyn sy'n byw yn nalgylch Llancarfan ac y gellid eu cefnogi e.e. drwy gludiant ysgol o'r ysgol newydd i Lancarfan. Mae Ysgol Gynradd Llancarfan ar hyn o bryd yn cynnig ei glwb ar ôl ysgol ei hun i'w ddisgyblion, am £6.50 y sesiwn. Byddai'r ddarpariaeth hon yn parhau i fod ar gael pe bai'r ysgol yn symud i safle newydd.<br><br>Mae gan y clwb tenis aelodaeth gyswllt o'r LTA (Lawn Tennis Association). Mae'n fudiad gwirfoddol sy'n berchen ar y tir drwy gyfrwng nifer o ymddiriedolwyr. Mae Clwb Tenis Lawnt Llancarfan yn disgrifio'i hun fel 'Clwb Gwledig ym Mro Morgannwg'. Mae CTL Llancarfan yn gyfleuster un cwrt ger y neuadd bentref a'r ysgol gynradd. Defnyddir y cwrt yn helaeth yn ystod misoedd yr haf gydag aelodaeth iachus, a thwrnamaint haf poblogaidd (pan gaiff cyrtiau preifat gerllaw hefyd eu defnyddio). Telir am ei gostau rhedeg ar gyfer adnewyddu'r cyrtiau ac ati, drwy godi arian yn y gymuned, a rhai ffynonellau ariannu cyfyngedig. Er enghraifft mae'r ysgol yn talu £330 y flwyddyn i ddefnyddio'r cyrtiau yn ystod y diwrnod ysgol. Cynnal a chadw yw prif gost y clwb. Yn ystod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | misoedd yr haf cynhelir hyd at bum sesiwn hyfforddi yr wythnos rhwng y Pasg a gwyliau'r haf. Weithiau cynhelir pum wythnos ym mis Medi. Mae hyd at bum disgybl ym mhob sesiwn. Daw mwyafrif y rhai sy'n mynychu'r sesiynau hyfforddi o'r ysgol, neu o blith plant hŷn sydd wedi symud i'r ysgol uwchradd. Gall hyn arwain at aelodaeth deuluol. Mae tua 50-60 o deuluoedd yn aelodau; mae nifer llai o blant iau yn aelodau. Byddai'r clwb tenis yn colli incwm gan yr ysgol o ganlyniad i'r trosglwyddo (gweler CI3). Mae adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hefyd yn awgrymu bod cyfran fawr o'r aelodau yn ddisgyblion presennol, neu'n gyn-ddisgyblion a'u rhieni. Mae adborth yn nodi y bydd effaith negyddol ar y clwb o drosglwyddo'r ysgol gan y bydd y pentref yn denu llai o aelodau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn nodi nad oes clwb tenis ger safle arfaethedig yr adeilad newydd. Gallai'r ysgol a'r Corff Llywodraethu gefnogi a hybu'r clwb tenis i'r disgyblion a rhieni. Y clwb tenis agosaf fyddai'r un yn Y Barri neu Lanilltud Fawr.<br><br>Mae adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn awgrymu na fyddai teuluoedd yn cael eu denu i fyw yn Llancarfan oherwydd bod yr ysgol yn cael ei throsglwyddo. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn nodi bod nifer o gymunedau cryf ledled Bro Morgannwg nad ydynt o fewn pellter cerdded i ysgol, y mae teuluoedd yn cael eu denu'n fawr atynt.  Yn ôl cyfrifiad 2011, mae gan boblogaeth Llandŵ, Sain Dunwyd a Llanddunwyd oed cymedrig tebyg i Lancarfan, er nad oes ysgol gynradd yn y pentref.<br><br>Mae hefyd dafarn, y Fox and Hounds, yn Llancarfan. Mae'r Fox |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | and Hounds yn un o gadwyn o bedair tafarn. Y Cyngor Cymuned yw rhydd-ddeiliad y dafarn, sy’n codi rhent o un peint y flwyddyn. Mae amodau cyfamod yn berthnasol – mae’n ofynnol er enghraifft i gynnal gwasanaeth papur newydd ar gyfer y pentref. Coach House Inns sy’n rhedeg y dafarn. Mae’n dy rhydd sy’n darparu cynnyrch lleol (cwrw, bwyd). Mae’r rheolwyr presennol wedi bod wrthi ers mis Ionawr 2017, ac wedi bod yn masnachu ers Chwefror 2017. Roedd y perchnogion blaenorol wedi osgoi cysylltiadau gyda’r ysgol, ac wedi cyfyngu ar oriau agor. Mae hyn wedi newid o dan y rheolwyr newydd. Mae’r dafarn yn marchnata ei hun ar-lein fel ‘tafarn i anelu amdani ym mhentref tawel Llancarfan ar lannau nant fechan, gydag Eglwys hanesyddol Sant Cadog yn gymydog iddi. Mae’r dafarn yn cynnig bwyd, diod a llety.<br><br>Mae adborth a dderbyniwyd fel rhan o’r ymgynghoriad yn dangos bod y dafarn yn elwa o’r ysgol gerllaw ar hyn o bryd gan ei bod yn denu teuluoedd i’r pentref. Mae’r dafarn yn un gymunedol wledig nodweddiadol. Mae hefyd yn cynnig llety a bwyd, yn ogystal â bar. Nid yw ar gyfer y gymuned yn unig; mae’n denu pobl i’r gymuned. Mae’n gwneud peth incwm gan rieni’n taro heibio am baned cyn ac ar ôl bod i’r ysgol. Nid yw’r rheolwr fodd bynnag wedi gallu rhoi amcangyfrif o’r incwm sy’n gysylltiedig â hyn. Mae rhieni plant sy’n byw y tu allan i’r pentre hefyd yn defnyddio’r dafarn. Mae’r dafarn hefyd yn agor ar gyfer y ras hwyaid flynyddol a ffair yr ysgol.  Mae’r dafarn wedi cefnogi’r ras hwyaid flynyddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae’r dafarn yn honni ei bod yn derbyn swm sylweddol o arian yn sgil y digwyddiadau hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gallai symud yr ysgol o Lancarfan gael effaith negyddol ar y busnesau hyn gan nad yw nifer o rieni a disgyblion sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn yn byw yn Llancarfan.<br><br>Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posib, byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ysgol ac aelodau'r gymuned i gefnogi busnesau a digwyddiadau lleol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, gyfeirio pobl atynt drwy wefan yr ysgol. Byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi cymuned Llancarfan drwy ei fenter Cymunedau Gwledig Creadigol, lle y mae'r Cyngor yn cefnogi cymunedau a mentrau i ddatblygu projectau a syniadau arloesol a fydd yn creu buddiannau cymdeithasol ac economaidd hirdymor. Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r Gronfa Cymhorthdal Cymunedau Cryf i gefnogi Grwpiau Cymunedol, y Sector Wirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned.  Mae £672,000 ar gael dros gyfnod o dair blynedd hyd nes Mawrth 2020. Byddai'r clwb tenis yn gymwys i wneud cais am gymhorthdal. Mae'r clwb wedi datgan nad yw wedi gwneud cais am gymhorthdal ac mae'n llwyr ddibynnol ar incwm, rhan ohono'n dod o Ysgol Gynradd Llancarfan. |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol | -1 | Dim ond 5% o'r staff (1 aelod) a gyflogir gan yr ysgol sy'n byw yn nalgylch presennol Ysgol Gynradd Llancarfan. Byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos i gefnogi pob aelod o staff i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y rhai a gyflogir gan yr ysgol o ganlyniad i'r cynnig. Nid yw aelodau o staff wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol.<br><br>Fel yr amlinellir yn CI5, gallai'r cynnig hwn gael effaith negyddol ar fusnesau a mudiadau lleol, a allai arwain at lai o waith yn lleol. Byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi cymuned Llancarfan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | drwy ei fenter Cymunedau Gwledig Creadigol, lle y mae'r Cyngor yn cefnogi cymunedau a mentrau i ddatblygu projectau a syniadau arloesol a fydd yn creu buddiannau cymdeithasol ac economaidd hirdymor.<br><br>O bwyso a mesur, ystyrir y gallai'r cynnig hwn gael ychydig o effaith negyddol ar gyflogaeth leol. |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol | 2 | Mae'r ffyrdd sy'n dod i mewn i'r pentref yn lonydd sengl ac mae perthi bob ochr iddynt. Mae mynediad at Ysgol Gynradd Llancarfan yn gyfyngedig oherwydd nad ydi hi'n hawdd gyrru ar hyd y lonydd tuag at y pentref a thrwyddi.<br>Caiff y tagfeydd eu gwaethygu gan y nifer fawr o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch.<br><br>Byddai'r cynnig yn arwain at ddisgyblion sy'n byw yn Llancarfan ar hyn o bryd yn gorfod teithio i safle ysgol newydd, a allai olygu rhagor o draffig yn gadael y pentref. Fodd bynnag, byddai gan ddisgyblion sy'n byw yn Llancarfan ar hyn o bryd yr hawl i gael trafnidiaeth ysgol am ddim a byddent yn cael eu casglu a'u cludo mewn grwpiau.<br><br>Fel yr amlinellir uchod, nid yw mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan yn byw yn y gymuned leol. Mae 69 o ddisgyblion ar hyn o bryd yn mynychu'r ysgol sy'n byw mwy na 2 filltir i ffwrdd, a ddim yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim.<br><br>Mae trosglwyddo'r ysgol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y rhwydwaith ffyrdd lleol gan y bydd llai o dagfeydd gan y rhai sy'n teithio i'r ysgol o'r tu allan i'r pentref. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CI8 | Trefniadau cludiant | -0.5 | Mae ar y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cludiant ysgol am ddim i blant oedran ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded i'r ysgol briodol agosaf.[1]<br><br>*"Diffinnir hyn fel mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer disgyblion Ysgolion Uwchradd. Mesurir pellteroedd drwy'r llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."*[2]<br><br>Felly byddai unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan ar y dyddiad symud i'r safle newydd ac sy'n byw mwy na 2 filltir o'r safle newydd yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol am ddim. Dim ond 29% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan ar hyn o bryd sydd o fewn y dalgylch presennol. O dan y cynnig, byddai'r plant hyn y tu allan i'r cyfyngiad 2 filltir, ac felly angen cludiant i'r safle newydd yn Y Rhws.<br>Byddai'r trefniadau pontio derbyniadau a gynigir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadlewyrchu wrth ddarparu'r drafnidiaeth. Byddai hyn yn cefnogi plant sydd â brodyr a chwiorydd yr effeithir arnynt gan y newid o ran dalgylchoedd i sicrhau, os gofynnir gan y rhieni, y caiff y brodyr a/neu'r chwiorydd eu cludo i'r Ysgol Gynradd Llancarfan newydd, cyhyd ag y byddent yn mynychu'r ysgol ar yr un pryd ac yn byw mwy na dwy filltir o safle newydd yr ysgol. |

[1]Policy For The Provision Of Home To School Transport (Revised February 2010)

[2]The Learner Travel (Wales) Measure 2008

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar drefniadau teithio i gymuned Llancarfan gan na fyddai'r ysgol newydd o fewn pellter cerdded i'r trigolion lleol. Fodd bynnag, dylid nodi bod hyn yn berthnasol i nifer fechan o ddisgyblion yn byw yn agos at yr ysgol. Mae seilwaith y gymuned yn cyfyngu ar allu disgyblion i gerdded i'r ysgol gan nad oes llwybrau neu droedffyrdd yn y pentref neu o'i hamgylch yn arwain at safle'r ysgol. |

## 6b. Effeithiau ar y Gymuned Ehangach

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Trosglwyddo Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| CI1 | Plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol | 3 | Mae mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn byw y tu allan i'r dalgylch. Ar hyn o bryd, mae 101 o blant ar y gofrestr ac mae 29 (29%), yn byw o fewn dalgylch yr ysgol. Mae'r 72 o blant (71%) sy'n weddill yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae 36 (48%) o'r 75 o ddisgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch yn byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Y Rhws.<br><br>Ar hyn o bryd, mae gan Ysgol Gynradd Y Rhws 374 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'n gallu derbyn 375, ac felly mae un lle yn weddill (0.3%). Mae'r galw am leoedd ysgol yn Ysgol Gynradd y Rhws yn debygol o gynyddu oherwydd datblygiadau tai newydd yn y dalgylch.<br><br>**Ysgol** / **Capasiti'r ysgol** / **2018/19** / **2019/20** / **2020/21** / **2021/22** / **2022/23**:<br>Y Rhws / 375 / 376 / 373 / 405 / 451 / 465<br><br>Mae'r tabl uchod yn dangos bod galw yn y dyfodol yn debygol o fod yn uwch na chapasiti Ysgol Gynradd Y Rhws.<br><br>Yn rhan o'r cynnig, byddai angen ail-lunio dalgylch presennol Ysgol Gynradd Llancarfan. Byddai'r cynnig yn rhannu dalgylch |

Nested table from the Effaith column:

| Ysgol | Capasiti'r ysgol | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Rhws | 375 | 376 | 373 | 405 | 451 | 465 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | presennol Ysgol Gynradd Llancarfan fydd wedi'i throsglwyddo, rhwng Ysgolion Cynradd Y Rhws, Llanfair, Sain Tathan a Sain Nicolas. Byddai hefyd angen ailbennu dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhws i ddosbarthu disgyblion yn gydradd yn Y Rhws i wasanaethu'r ddwy ysgol.<br><br>Disgwylir i'r diwygiadau i ddalgylchoedd gynyddu niferoedd disgyblion mewn ysgolion eraill, gan wella cynaliadwyedd yn y dyfodol a chyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i leihau gormod o gapasiti yn ei ysgolion.<br><br>Bydd adolygu'r dalgylchoedd, gan newid y ffordd y darperir addysg, yn arwain at ddosbarthiad mwy cyfartal o ddisgyblion yn yr ysgolion arfaethedig. |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. | 2 | Byddai'r cynnig yn arwain at yr ysgol a drosglwyddwyd yn cynyddu ei chapasiti i 210 o ddisgyblion. Byddai hyn hefyd yn cynnwys dosbarth meithrin rhan amser gyda 48 o leoedd. Byddai'r ysgol newydd yn gwasanaethu cymuned ehangach nag Ysgol Gynradd bresennol Llancarfan.<br><br>Byddai'r dosbarth meithrin yn darparu gwasanaethau ychwanegol i'r gymuned nad ydynt ar gael ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r cynnig yn ffurfio rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Elfen allweddol o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw creu cyfleusterau cymunedol. Byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ysgol ac aelodau'r gymuned ehangach i ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd fydd yn sicrhau y bydd gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn bodloni anghenion y gymuned. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | 1 | Mae nifer o gyfleusterau cymunedol o gwmpas y safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd y gellid eu defnyddio gan yr ysgol newydd.<br><br>Mae cyfleusterau cymunedol sydd ar gael yn ardal Y Rhws yn cynnwys Canolfan Gymunedol Stewart Road, Canolfan Gymunedol Celtic Way, Llyfrgell y Rhws, Parc ac ardal chwarae Milbourne, lawnt fowlio Celtic Way, caeau chwaraeon Ceri Road a chaeau pêl-droed Celtic Way. Mae'r rhain yn gyfleusterau y gellid eu defnyddio gan yr ysgol er mwyn gwella'r cwricwlwm ymhellach. |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir a gweithgareddau a gynhelir ar safle'r ysgol | 2 | Mae'r cynnig yn ffurfio rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Elfen allweddol o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw creu cyfleusterau cymunedol. Byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ysgol ac aelodau'r gymuned ehangach i ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd i sicrhau y bydd gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol yn addas ar gyfer y gymuned.<br><br>Yn ystod ymarferiad mapio cymunedol a gwblhawyd yn ystod Hydref – Tachwedd 2016, nododd preswylwyr y dylid gwella cyfleusterau, yn enwedig gwasanaethau iechyd, ysgol, trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a siopau, o ystyried y twf yn yr ardal. |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol | 1 | Mae nifer o fusnesau a mudiadau yn Y Rhws, gan gynnwys Parc Hamdden Ffontygari, Parc Gwledig Porthceri a nifer o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | dafarndai, tai bwyta a siopau. Mae poblogaeth Y Rhws yn tyfu yn sgil datblygiadau tai newydd yn yr ardal. Byddai trosglwyddo Ysgol Gynradd Llancarfan yn sicrhau bod digon o leoedd ysgol fyddai'n atal rhieni rhag teithio y tu allan i'r ardal i fynd i'r ysgol. Mae hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol. |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol | 2 | Byddai lleoliad newydd yr ysgol yn lleihau amser teithio ar gyfer mwyafrif llethol y staff a gyflogir ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae 21% (4 aelod) o'r staff a gyflogir ar hyn o bryd gan yr ysgol yn byw yn ardal Y Rhws.<br><br>Byddai gan yr ysgol a drosglwyddir hefyd le i ragor o ddisgyblion, fyddai'n arwain at gyfleoedd cyflogaeth ychwanegol i aelodau'r gymuned ehangach. |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol | -1 | Byddai trosglwyddo Ysgol Gynradd Llancarfan yn debygol o arwain at ragor o draffig ceir yn ardal Y Rhws. Fodd bynnag, ystyrir bod seilwaith y ffyrdd o gwmpas safle arfaethedig adeilad newydd yr ysgol mewn gwell sefyllfa i ymdrin â'r cynnydd o ran traffig, nag yw'r lonydd cul o gwmpas Llancarfan. Mae safle'r adeilad newydd arfaethedig 0.9 milltir o Ysgol Gynradd y Rhws sydd ar y brif ffordd drwy'r pentref, lle gwelir tagfeydd yn arbennig wrthi blant gael eu gollwng a'u casglu oddi yno.<br><br>Mae 69 o ddisgyblion ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan sy'n byw mwy na 2 filltir i ffwrdd, a ddim yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim. Byddai hyn yn gostwng i 42 o ddisgyblion ar ôl i'r ysgol drosglwyddo i'r safle arfaethedig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol er mwyn cyfyngu ar effaith y cynnydd mewn traffig. |
| CI8 | Trefniadau cludiant | 2 | Fel yr amlinellir uchod, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan yn byw o fewn y dalgylch.<br><br>Fel rhan o'r cynnig, byddai angen ail-lunio dalgylch presennol Ysgol Gynradd Llancarfan. Byddai'r cynnig yn rhannu dalgylch presennol Ysgol Gynradd Llancarfan fydd wedi'i throsglwyddo, rhwng Ysgolion Cynradd Y Rhws, Llanfair, Sain Tathan a Sain Nicolas. Byddai hefyd angen ailbennu dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhws i ddosbarthu disgyblion yn gydradd yn Y Rhws i wasanaethu'r ddwy ysgol.<br><br>Mae 35% o boblogaeth bresennol Ysgol Gynradd Llancarfan yn teithio ar hyn o bryd i'r pentref o'r Rhws. Byddai trosglwyddo'r ysgol i'r safle newydd yn Y Rhws o dan y cynnig hwn yn lleihau'r costau cludo a'r trefniadau sydd eu hangen ar hyn o bryd ar safle presennol yr ysgol.<br><br>Os na fyddai'r ysgol yn cael ei throsglwyddo i'r safle newydd o dan y cynnig hwn, ni fyddai dewis gan y 90 disgybl ychwanegol y rhagwelir na ellir eu cynnwys yn y datblygiad newydd yn Y Rhws, ond teithio i ysgolion y tu allan i'w hardal leol, gan ychwanegu at y tagfeydd traffig a'r costau teithio yng Ngorllewin y Fro.<br><br>Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar rieni'r Rhws gan y byddai plant sy'n cael eu cludo i Ysgol Gynradd Llancarfan, o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fewn pellter cerdded i'r ysgol wedi trosglwyddo. Mae plant sy'n byw yn Y Rhws o fewn pellter cerdded o Ysgol Gynradd y Rhws a'r ysgol newydd.<br><br>Byddai'r dalgylchoedd newydd felly'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar drefniadau teithio. |

## 7. Crynodeb Sgorio

| Cyf. | Cymuned Leol | Cymuned Ehangach |
|---|---|---|
| CI1 | 2 | 3 |
| CI2 | 0 | 2 |
| CI3 | -1 | 1 |
| CI4 | 0 | 2 |
| CI5 | -1 | 1 |
| CI6 | -1 | 2 |
| CI7 | 2 | -1 |
| CI8 | -0.5 | 2 |
| Sgôr cyfartalog | + 0.0625 | +1.5 |

## 8. Camau Lliniarol

Mae'r asesiad o'r effaith ar y gymuned hwn wedi nodi nifer o effeithiau negyddol y gallai'r cynnig hwn eu cael ar y gymuned leol a'r gymuned ehangach. Mae'n bosib y byddai'n rhaid i'r Cyngor gymryd nifer o gamau lliniarol i leihau'r effaith ar y gymuned.

| Cyf. | Cam Lliniarol | Canlyniad Dymunol |
|---|---|---|
| M1 | Cefnogi'r gymuned leol drwy fenter Cymunedau Gwledig Creadigol y Cyngor. Mae'r fenter Cymunedau Gwledig Creadigol wedi cefnogi cymunedau gwledig ledled Bro Morgannwg. | Mae menter Cymunedau Gwledig Creadigol yn cefnogi arloesedd mewn busnes i leihau effaith y cynnig hwn ar fusnesau lleol. Gall menter Cymunedau Gwledig Creadigol hefyd gefnogi archwilio ffyrdd newydd o gynnig gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau sydd o fudd i'r gymuned. |
| M2 | Rhoi gwybodaeth i'r gymuned leol am Gronfa Cymhorthdal Cymunedau Cryf y Cyngor. | Mae'r Gronfa Cymhorthdal Cymunedau Cryf yn cynnig grantiau i Grwpiau Cymunedol, y Sector Wirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned tuag at gostau mentrau ym Mro Morgannwg. Cyfanswm y gronfa yw £672,000 dros dair blynedd hyd fis Mawrth 2020. Gallai sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig wneud cais am arian i gefnogi mentrau newydd i leihau'r effaith. |

| | | |
|---|---|---|
| M3 | Gweithio gyda'r ysgol, y Corff Llywodraethu a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon i gefnogi sefydliadau lleol a'r gymuned. | Gweithio gyda'r ysgol i gefnogi sefydliadau lleol drwy gyfeirio atynt ar y wefan ac anfon gwybodaeth i rieni. Gallai'r ysgol sydd wedi'i throsglwyddo barhau i gael perthynas gref gyda chymuned Llancarfan i leihau'r effaith. |
| M4 | Ymgysylltu gydag arweinwyr yr ysgol, staff, y Corff Llywodraethu, rhieni, disgyblion a'r gymuned i ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd. | Gweithio'n agos gydag arweinwyr yr ysgol, staff, y Corff Llywodraethu, rhieni, disgyblion a'r gymuned i ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd i sicrhau ei fod yn bodloni eu hanghenion. Bydd hyn yn sicrhau bod yr adeilad newydd yn ffurfio rhan o'r gymuned leol ac ehangach drwy wella'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt. Bydd yr ymgysylltiad hefyd yn ceisio lleihau effaith niweidiol y cynnydd mewn traffig. |

## 9. Casgliad

Mae'r asesiad effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar y gymuned leol mewn 4 o'r 8 mesur a aseswyd. At ei gilydd, byddai'r cynnig yn debygol o arwain at ddim newid, neu welliant bach.

Mae'r asesiad effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned ehangach mewn 7 o'r 8 mesur. At ei gilydd, byddai'r cynnig yn debygol o arwain at welliant bach i ganolig i'r gymuned ehangach.

Prif ddiben ysgol yw addysgu disgyblion i'r safonau gorau, ac nid yw'n rhesymol disgwyl i ysgolion a disgyblion gario baich ehangach yr effaith ar y gymuned. Yn y pen draw, nid yw ffactorau economaidd a chymdeithasol yn faterion addysgol, ac ni ellir caniatáu iddynt gyfaddawdu addysg plant.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r ysgol i barhau â'i lwyddiant tra'n cynnig addysg i fwy o ddisgyblion. Byddai'n cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, tra'n herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r gymuned i barhau i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol ac i wneud hynny fwyfwy, drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Byddai'r cynnig yn rhoi dull cyson o 3-11 oed fyddai'n hybu ac yn tanlinellu parhad a chynnydd i'r disgyblion, gan sicrhau cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys.

Byddai'r ysgol yn gallu ymgorffori darpariaeth ar gyfer plant 3 a 4 oed mewn lleoliad Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Sylfaen o ansawdd uchel. Byddai uned feithrin yn

galluogi pontio di-dor i blant oed meithrin i mewn i ddosbarth derbyn yr ysgol ac yn cynnal niferoedd disgyblion ar gyfer y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Mae rhieni ac aelodau'r gymuned yn cefnogi'r plant fel cymheiriaid, ac o ran cymorth i ddarllen.
Cynigir y bydd o leiaf pob cyfleuster presennol ar gyfer rhieni disgyblion a'r gymuned yn parhau.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig i ad-drefnu darpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro yn bodloni anghenion y gymuned ehangach yn well, i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd ysgol yng Ngorllewin y Fro.